

Senedd Cymru
Ymchwil y Senedd

Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Papur briffio

Awst 2022



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
ymchwil.senedd.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 7174**

E-bost: **Katy.Orford@senedd.cymru**

Twitter: **[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)**

Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**

Tanysgrifiwch: **[Diweddariadau mewn amser real](#)** | **[Diweddariadau wythnosol a misol](#)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2022**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Papur briffio

Awst 2022

Awdur:

Katy Orford

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Ffermio Cynaliadwy drafft hir ddisgwyliedig ym mis Gorffennaf 2022. Mae'r cynllun yn cyflwyno dull uchelgeisiol newydd o ran cymorth i amaethyddiaeth ar ôl Brexit a allai newid ffermio a thirweddau yng Nghymru yn ddramatig.

Yn seiliedig ar yr egwyddor o reoli tir yn gynaliadwy, byddai'r cynllun yn gwobrwyo ffermwyr am gymryd camau gweithredu i ymdrin â'r argyfyngau natur a hinsawdd ochr yn ochr â chynhyrchu bwyd mewn ffordd gynaliadwy. Gellir dadlau bod y polisi hwn yn mynd y tu hwnt i Bolisi Amaethyddol Cyffredin yr Undeb Ewropeaidd, o ran cefnogi gwaith ehangach i wella gweithgarwch rheoli tir.

Mae'r papur briffio hwn yn adrodd hanes y cyfnod sy'n arwain at gyhoeddi'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy drafft, gan gynnwys y blaenoriaethau y mae rhanddeiliaid wedi'u nodi drwy gydol y broses ymgynghori. Mae'n crynhoi'r cynllun sy'n dod i'r amlwg a'r ymatebion iddo, yn ogystal â'r trefniadau o ran cyfnod pontio ac ymgynghoriadau ychwanegol.



Cynnwys

1. Cyflwyniad	1
2. Ymatebion i'r Papur Gwyn ar Fil Amaethyddiaeth (Cymru)	2
3. Canlyniadau'r broses gyd-ddylunio (Cam 1)	4
4. Cynllun Ffermio Cynaliadwy drafft	6
Camau gweithredu a chanlyniadau	6
Cymhwysedd a mynediad at y Cynllun Ffermio Cynaliadwy	8
Taliadau.....	10
Sylwadau rhanddeiliaid	11
5. Beth sydd nesaf?	12
6. Deunydd darllen ychwanegol	12

1. Cyflwyniad

Cyhoeddwyd y **Cynllun Ffermio Cynaliadwy drafft** ar 6 Gorffennaf.

Rhagwelir mai Bil Amaethyddiaeth (Cymru), y disgwylir iddo gael ei gyflwyno ym mis Medi, fydd y cyfrwng deddfwriaethol ar gyfer gweithredu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Bydd y cynllun newydd, sydd i'w gyflwyno yn 2025, yn cymryd lle taliadau tebyg i daliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin i ffermwyr.

Mae papur briffio ar wahân gan Ymchwil y Senedd yn egluro'r system daliadau bresennol a'r cyd-destun ar gyfer y newidiadau sy'n cael eu gwneud i gymorth amaethyddol.

Mae Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid wedi bod yn llunio cynigion ar gyfer dyfodol ffermio ers y refferendwm ar ein haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy drafft wedi'i gyhoeddi yn dilyn tri ymgynghoriad cyhoeddus, sef: **Brexit a'n Tir** (2018) a **Ffermio Cynaliadwy a'n Tir** (2019), a arweiniodd at y **Papur Gwyn ar Fil Amaethyddiaeth (Cymru)** (2020).

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn dilyn proses '**cyd-ddylunio**', lle mae rhanddeiliaid (ffermwyr ac aelodau eraill o'r gymuned wledig) yn helpu i lywio'r gwaith o lunio'r cynigion. Mae **Cam 1** y broses gyd-ddylunio wedi'i gwblhau. Mae **Cam 2** yn cael ei gynnal yr haf hwn, yn seiliedig ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy drafft.

Cafodd canfyddiadau Cam 1, crynodeb o'r ymatebion i'r Papur Gwyn ac ymateb polisi Llywodraeth Cymru eu **cyhoeddi yn 2021**.

2. Ymatebion i'r Papur Gwyn ar Fil Amaethyddiaeth (Cymru)

Yn wreiddiol, cafodd cynigion cychwynnol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy eu nodi ym **Mhapur Gwyn 2020 ar Fil Amaethyddiaeth (Cymru)**. Yn gyffredinol, roedd grwpiau amgylcheddol (fel Plantlife a'r Sustainable Soils Alliance) yn croesawu'r cynigion. Ar y llaw arall, galwodd amaethwyr am i gynhyrchu bwyd fod yn gymwys i gael cymorth yn ei rinwedd ei hun, a mynegwyd pryderon ynghylch dyfodol cymunedau gwledig os yw'r cymorth uniongyrchol hwn yn cael ei gollu. Galwodd rhanddeiliaid am ragor o fanylion i alluogi iddynt graffu ar y cynigion yn drwyadl.

Roedd y cynigion wedi'u seilio ar yr egwyddor o **Reoli Tir yn Gynaliadwy**, gan wobrwyo ffermwyr am ddarparu 'nwyddau cyhoeddus' o'r tir, gan gynnwys gwelliannau cymdeithasol ac amgylcheddol mewn dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Byddai ffermwyr yn cael eu talu am ganlyniadau eu gweithredoedd (yn hytrach nag am y gweithredoedd eu hunain). Mae **papur arall a gyhoeddwyd gan Ymchwil y Senedd yn trafod cynlluniau sy'n seiliedig ar ganlyniadau**.

Byddai hyn yn mynd y tu hwnt i ddull talu iawndal ar sail 'costau a ysgwyddir ac incwm a ildwyd' yn unol â chynlluniau amaeth-amgylcheddol y Polisi Amaethyddol Cyffredin, gyda'r gallu i dalu cyfraddau uwch ar gyfer rheoli amgylcheddol. Byddai ffermwyr ond yn cael eu gwobrwyo yn ôl Safonau Gofynnol Cenedlaethol, sy'n debygol o gyfateb i amodau trawsgydymffurfio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin. Byddai hyn yn cynnal y safonau/gofynion cyfreithiol sylfaenol presennol sy'n helpu i lywio pa daliadau a wneir ar hyn o bryd.

Yn wahanol i'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, ni fyddai ffermwyr yn cael cymorth uniongyrchol yn benodol ar gyfer cynhyrchu bwyd. Byddai taliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin sy'n debyg i **daliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol** yn dirwyn i ben yn raddol. **Mae Llywodraeth Cymru wedi dadlau**, yn sgil y ffaith bod gan fwyd werth ar y farchnad, na ddylid ei ystyried yn nwydd cyhoeddus, felly ni ddylai'r wladwriaeth ei ariannu'n uniongyrchol. Yn hytrach, mae Llywodraeth Cymru yn dweud y bydd cefnogi gwell gamau rheoli amgylcheddol yn gwella cynhyrchiant

bwyd cynaliadwy, oherwydd bod y ddau beth yn mynd law yn llaw.

Noda'r Papur Gwyn y byddai'n ofynnol i gynnal 'Adolygiad cychwynnol o Gynaliadwyedd Fferm', pan fyddai cyngor a chymorth yn cael eu darparu ynghylch potensial y fferm o ran rheoli tir yn gynaliadwy. Byddai camau cyflawni a metrigau yn cael eu cytuno mewn 'Cynllun Cynaliadwyedd Fferm' aml-flwyddyn. Roedd y Papur Gwyn yn cynnig gosod targedau hirdymor ar gyfer pob canlyniad, yn ogystal â chyflwyno dull monitro a gwerthuso. Roedd yn cynnig dull seiliedig ar risg o archwilio a defnyddio technoleg o bell i dargedu ymweliadau fferm yn well.

Roedd y **crynodeb o'r ymatebion i'r Papur Gwyn gan randdeiliaid** yn nodi'r materion a ganlyn (tudalen 30 ymlaen):

- Mae angen mwy o eglurder; er enghraifft, ynghylch diffiniad o'r cysyniad o nwyddau cyhoeddus a sut y cânt eu mesur a'u gwobrwyo (nodwyd hyn gan Plantlife, Lantra ac amaethwr);
- Cefnogaeth i ddull gweithredu sy'n gwobrwyo darparu nwyddau cyhoeddus na ellir eu marchnata, gan symud i ffwrdd o gynhyrchu dwys â chymhorthdal (nodwyd hyn gan RSPCA Cymru, y Sustainable Soils Alliance ac amaethwr);
- Daeth y gefnogaeth gryfaf i'r cynigion gan grwpiau amgylcheddol neu'r rhai sydd â diddordeb mewn arferion rheoli tir yn gynaliadwy;
- Roedd sicrhau tegwch wrth gael mynediad at y cynllun yn bwysig i amaethwyr, yn enwedig o ran ffermydd llai;
- Mynegwyd pryderon ynghylch gallu newydd-ddyfodiaid i ffermio i gael mynediad at y cynllun (nodwyd hyn gan Undeb Amaethwyr Cymru);
- Pwysleisiodd rhai ymatebwyr ffactorau/nodweddion ychwanegol y dylid eu hystyried ar gyfer cefnogaeth, y tu hwnt i'r nwyddau cyhoeddus amgylcheddol a gynigir yn bennaf. Roedd y rhain yn cynnwys amcanion diwylliannol, amcanion cymdeithasol ac amcanion economaidd (nodwyd hyn gan Gymdeithas Eryri a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru);
- Teimlai rhai ymatebwyr y dylai'r cynllun wobrwyo cynhyrchu bwyd, ac y dylid nodi diogeledd bwyd fel nwydd cyhoeddus, i sicrhau cymunedau gwledig bywiog a gwydn (nodwyd hyn gan y Welsh Commons Forum a Chlwb Ffermwyr Ifanc Maesyfed);
- Roedd rhai amaethwyr yn teimlo na ddylid gadael gwobrwyon am gynhyrchu bwyd i'r farchnad oherwydd ei natur anrhagweladwy, a bod angen 'taliadau sefydlogrwydd' arnynt.

Roedd **ymateb polisi** Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad yn nodi ei safbwynt

ar daliadau sefydlogrwydd, sef cwestiwn allweddol a ofynnwyd gan yr undebau ffermio. Nododd fod “mesurau argyfwng ac ymyrryd yn y farchnad ar waith ar lefel y DU a byddant yn parhau’n rhan o fesurau’r Llywodraeth i ddelio ag ansefydlogrwydd neu fethiant yn y farchnad”. Hefyd, dywedodd y Llywodraeth mai’r ymateb gorau i gyfnewidioldeb y farchnad ar lefel fferm unigol yw cael ystod o ffrydiau incwm ac y byddai’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn ffrwd incwm newydd.

3. Canlyniadau’r broses gyd-ddylunio (Cam 1)

Canfu cam 1 y broses gyd-ddylunio fod

perchenogaeth dros ofynion y cynllun yn bwysig i sicrhau bod ffermwyr yn cymryd rhan ynddo. Yn hynny o beth, dylai ffermwyr a chynghorwyr wneud penderfyniadau ar y cyd. Mae ffermwyr yn agored i ddatblygu sgiliau newydd a darparu bwyd a nwyddau amgylcheddol eraill ar yr un pryd; fodd bynnag, roedd sefydlogrwydd o ran incwm a chynhyrchu bwyd yn bryder i rai.

Roedd Cam 1 y broses gyd-ddylunio yn cynnwys arolwg ar-lein (1,941 o ymatebwyr), cyfarfodydd un-i-un (270 o gyfarfodydd) a sesiynau grŵp (28 o sesiynau gyda chyfanswm o 129 o gyfranogwyr). Rhoddodd rhanddeiliaid y dystiolaeth a ganlyn, **a grynhowyd gan Menter a Busnes** (cwmni annibynnol sy’n darparu cymorth busnes):

- Nid yw ffermwyr yn erbyn gweithio mewn ffordd newydd;
- Bydd cyfathrebu clir a gweledol yn bwysig wrth lansio’r cynllun newydd;
- Mae awydd gan amaethwyr i rannu data â Llywodraeth Cymru (yn dibynnu ar yr union ofynion a’r wob);
- O ran yr Adolygiad o Gynaliadwyedd Fferm, byddai’r rhan fwyaf o ffermwyr yn ffafrio dewis eu cynghorydd/swyddog;
- Byddai darparu rhestr glir o gamau gweithredu gofynnol/dewisol ynghyd â rhesymeg lawn o’r buddion yn helpu ffermwyr i ystyried yr hyn a fyddai’n gweddu orau gyda’u systemau ffermio a’r effeithiau posibl ar gynhyrchiant a phroffidioldeb;
- Roedd gwneud penderfyniadau ar y cyd rhwng y ffermwr a’r cynghorydd

yn bwysig o ran sicrhau buddion tymor hwy a pherchnogaeth ar gamau gweithredu;

- Mewn perthynas â'r Cynllun Cynaliadwyedd Fferm, roedd ffermwyr yn ffafrio hunanasesu o fewn y cynllun, gydag awgrymiadau ar gyfer defnyddio cyfuniad o ddulliau cyfunol dros y we/apiau a systemau ar bapur. Roedd rhanddeiliaid o'r farn bod datblygu llwyfannau ar-lein Taliadau Gwledig Cymru (a ddefnyddiwyd eisoes ar gyfer taliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin) yn ddull rhesymegol;
- Mae deall y sylfaen ar gyfer gwobrwyo gweithredoedd o fewn y cynllun yn bwysig i ffermwyr;
- Dywedodd ffermwyr fod diffinio camau gweithredu a chynigion yn gam cyntaf ar gyfer llunio'r cynllun. Roedd pennu cyfraddau talu a goddefiannau hefyd yn ystyriaethau pwysig i ffermwyr.
- Ar y cyfan, mae ffermwyr yn rhoi ystyriaeth sylweddol i reoli'r pridd. Byddai cyflwyno cefnogaeth ar gyfer gwasgaru calch yn effeithiol er mwyn gwella rheolaeth o'r pridd;
- Mae tir yn darparu cynefin a chynhyrchiant, ac roedd ffermwyr yn arbennig o barod i dderbyn y syniad o ddarparu bwyd a nwyddau amgylcheddol eraill ar y tir;
- Mae ffermwyr yn hyderus eu bod eisoes yn meddu ar y sgiliau gofynnol i reoli cynefinoedd mewn modd ffafriol;
- Mae'r diffiniad o 'dal yn ôl canlyniad' yn achosi ansicrwydd;
- Mae ffermwyr yn teimlo y dylent gael eu gwobrwyo am y gwaith da maen nhw eisoes yn ei wneud i ddiogelu cynefinoedd, nid eu cosbi;
- Mae ffermwyr yn gyffredinol yn cefnogi'r cynnig i ddadansoddi cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau wrth lunio strategaeth busnes fferm (y dull 'SWOT' yn Saesneg, sef 'strengths, weaknesses, opportunities and threats');
- Nid oedd ffermwyr am gael eu cosbi am fethu â chyrraedd targedau busnes;
- Roedd ffermwyr yn teimlo y dylai'r gefnogaeth ganolbwyntio ar wella cynhyrchiant; ac
- O ran iechyd a lles anifeiliaid, gwaredu clefydau - yn enwedig TB a chlafr defaid - oedd y mater pwysicaf sy'n gofyn am gefnogaeth gan y llywodraeth.

4. Cynllun Ffermio Cynaliadwy drafft

Mae'r **Cynllun Ffermio Cynaliadwy drafft** canlyniadol yn 2022 yn adeiladu ar gynigion y Papur Gwyn ac yn anelu at ymgorffori canfyddiadau'r gwaith cyd-ddylunio. Mae'n cynnig gwobrwyo ffermydd sy'n cyflawni cyfres o 'gampau cyffredinol' (sy'n amgylcheddol eu natur yn bennaf) i fod yn gymwys ar gyfer y taliad mwyaf sylfaenol. Mae'r rhain yn cynnwys gorchudd coed dros 10 y cant o dir y fferm, a chreu, rheoli a gwella cynefinoedd lled-naturiol dros 10 y cant o dir yn ychwanegol. Gan adeiladu ar hyn, mae camau gweithredu 'dewisol' a 'chydweithredol' yn destun gwobr ychwanegol.

Manylir ar yr agweddau allweddol isod.

Camau gweithredu a chanlyniadau

Nod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yw gwobrwyo ffermwyr sy'n cyflawni canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy (Bocs 1) drwy gymryd camau gweithredu penodol. Er mwyn ymdrin â'r galwadau am gamau gweithredu gorfodol / dewisol, mae'r cynllun yn cynnig amrywiaeth o gamau gweithredu wedi'u trefnu yn ôl tair haen:

- **Cyffredinol:** Rhaid i bob cam gweithredu cyffredinol gael ei gyflawni gan ffermwyr sy'n ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Nod y camau gweithredu hyn yw helpu ffermydd i ddod yn fwy cynaliadwy, a dyma'r blociau adeiladu iddynt wneud rhagor. Bydd 'taliad sylfaenol' yn cael ei roi i ffermwyr am gymryd camau gweithredu cyffredinol.
- **Dewisol:** Mae camau gweithredu lefel uwch dewisol yn rhoi gwobr ychwanegol drwy adeiladu ar y camau gweithredu cyffredinol, ond gallant fod yn fwy cymhleth i'w cyflawni ac mae'n rhaid eu teilwra'n fwy ar gyfer pob fferm neu faes penodol. Bydd gan ffermwyr ragor o hyblygrwydd ynghylch yr hyn y maent am ei wneud a sut.
- **Cydweithredol:** Haen ddewisol arall, a gaiff ei chyflawni mewn ffordd gydgyssylltiedig gan ffermwyr neu reolwyr tir lluosog, ar raddfa tirwedd neu

ddalgylch, neu'n genedlaethol; er enghraifft, creu cynefinoedd rhyng-gysylltiedig ar draws tirweddau. Maent wedi'u hanelu at flaenoriaethau mwy penodol y mae angen ragor o hyblygrwydd arnynt o ran sut y cânt eu cyflawni ac sy'n galw am gyfuniad o gamau gweithredu i sicrhau'r manteision mwyaf. Mae angen y mewnbwn mwyaf gan y ffermwr ar y rhain.

Mae'r dull gweithredu hwn sy'n seiliedig ar gamau gweithredu yn y cynllun, yn wahanol i'r dull seiliedig ar ganlyniadau a gynigiodd Llywodraeth Cymru yn wreiddiol a fyddai wedi gwobrwyo ffermwyr am ganlyniadau eu gweithredoedd.

O ran gwobr am gynhyrchu bwyd, nid yw Llywodraeth Cymru wedi newid ei dull gweithredu - dim ond am gamau gweithredu sy'n gysylltiedig â nwyddau cyhoeddus na ellir eu marchnata y rhoddir gwobr, yn unol â chanlyniadau rheoli tir yn gynaliadwy.

Bocs 1: Canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy

Aer Glân

Dŵr glân

Gwella mynediad ac ymgysylltu

Gwella mynediad ac ymgysylltu

Safonau iechyd a lles anifeiliaid uchel

Storio carbon

Lleihau risg llifogydd a sychder

Tirweddau naturiol a'r amgylchedd hanesyddol gwarchoddedig

Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr

Ecosystemau cydnerth

Defnyddio addodau'n effeithlon

Mae camau gweithredu amrywiol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy i gyflawni'r canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy a nodir uchod wedi'u grwpio o dan bum pennawd:

1. gwydn a chynhyrchiol;
2. lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu mewnbynnau, maetholion a gwastraff;
3. lleihau allyriadau ar y fferm a sicrhau'r atafaeliad carbon mwyaf;
4. gwarchod a gwella ecosystem y fferm; a
5. bod o fudd i bobl, anifeiliaid, a lle.

Fel enghraifft, gan gymryd y categori 'lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu mewnbynnau, maetholion a gwastraff', y camau gweithredu a gynnigir yw:

- **Cyffredinol:** Cynnal profion pridd proffesiynol a chan y ffermwr;
- **Dewisol:** Ychwanegu nitrogen drwy blanhigion gosod nitrogen (sefydlu glastiroedd cymysg, cynllunio cylchdroadau, crydio gorchudd); a
- **Chydweithredol:** Cefnogaeth i ffermwyr gydweithio mewn dalgylch i wella ansawdd dŵr.

Er mwyn helpu ffermwyr i gyflawni'r camau gweithredu perthnasol, bydd cymorth yn cael ei gynnig drwy wasanaeth cynghori Cyswllt Ffermio, yn ogystal â hyfforddiant a rhannu gwybodaeth ymhlith ffermwyr. Sefydlwyd **Cyswllt Ffermio** yn wreiddiol o dan 'Cymunedau Gwledig - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020' gan Lywodraeth Cymru ac mae wedi bod yn cynnig cymorth i wella gwydnwch a hyrwyddo newid trawsnewidiol mewn amaethyddiaeth, coedwigaeth a chymunedau gwledig.

Mae'r Gweinidog yn parhau i nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi parhad arferion ffermio cynaliadwy drwy dalu am *gynhaliath* yn ogystal â chreu. Mae hyn er mwyn ymateb i bryderon a fynegwyd gan randdeiliaid na fyddai ffermwyr sydd eisoes yn gwneud gwaith da yn cael eu gwobrwyo.

Cymhwysedd a mynediad at y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

I ymuno â'r cynllun, rhaid i ymgeiswyr:

- fod yn ffermwr sy'n ymgymryd â gweithgareddau amaethyddol;
- gallu cyflawni'n weithredol o leiaf y Camau Gweithredu Cyffredinol cymwys drwy gydol cyfnod y contract;
- rhoi'r camau gweithredu ar waith ar dir amaethyddol yng Nghymru; a
- ffermio o leiaf 3 hectar o dir amaethyddol cymwys.

I ymdrin â'r galwadau y dylai pob ffermwr (gan gynnwys ffermwyr ifanc a ffermwyr tenant) allu cael mynediad at y cynllun, mae'r ddogfen yn nodi:

Mae'n bwysig bod y Cynllun yn gweithio er lles ffermydd o bob math. Mae'r Cynllun wedi'i lunio fel y gall pob math o fferm fanteisio arno, gan gynnwys tenantiaid a'r rheini sydd â hawliau ar dir comin. Bydd yn agored yn rhwydd i ffermwyr sy'n bodloni safonau iechyd a lles anifeiliaid ac amgylcheddol uchel.

Mae'r broses yn dilyn y drefn a ganlyn:

Cofrestru fel Ffermwr: Bydd y ffermwr yn rhoi manylion y busnes a'r tir ar RPW Ar-lein. Cyngor a help gan Cyswllt Ffermio os oes angen



Adolygiad o Gynaliadwyedd: Bydd y ffermwr yn cynnal asesiad sylfaenol o gynaliadwyedd (e.e. asesiad carbon, adolygiad sylfaenol o gynefinoedd). Rhoddir y data ar RPW Ar-lein. Cyngor a help gan Cyswllt Ffermio os oes angen



Gweithredoedd: Bydd y ffermwr yn cytuno i gynnal Gweithredoedd Sylfaenol ac yn dewis Gweithredoedd Opsiynol. Cyngor a help gan Cyswllt Ffermio os oes angen



Cymhwyso: Bydd y ffermwr yn cadarnhau sut y caiff y gweithredoedd eu cynnal. Cyngor a help gan Cyswllt Ffermio os oes angen. Bydd RPW yn cadarnhau'ch bod yn gymwys, yn dilysu gweithredoedd ac yn rhoi syniad bras o werth y contract.



Contract: Bydd RPW Ar-lein yn rhoi contract terfynol yn nodi manylion y gweithredoedd a'r taliad. Bydd y ffermwr yn ymuno â'r cynllun.

Bydd yr Adolygiad o Gynaliadwyedd yn darparu asesiad fferm gyfan o agweddau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol ar y fferm o dan sylw. Bydd yn cael ei ddefnyddio fel llinell sylfaen ar gyfer ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ac yn arf i'r ffermwr adolygu, cymharu a helpu i wneud y gorau o berfformiad ei fferm yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio y gall y ffermwr gwblhau'r adolygiad, er y gallai fod angen mwy o arbenigedd ar rai elfennau; er enghraifft, yr Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd.

Bydd canfyddiadau'r Adolygiad o Gynaliadwyedd yn helpu i lywio penderfyniad y ffermwr ar ba gamau gweithredu (cyffredinol, dewisol a/neu gydweithredol) sy'n addas ac yn briodol ar ei gyfer.

Mewn ymgynghoriadau blaenorol, roedd yn rhaid i ffermwyr ddatblygu Cynllun Cynaliadwyedd i'w gytuno gyda'r cynghorydd. Teimlai rhanddeiliaid fod hyn yn creu lefel ychwanegol o fiwrocratiaeth, a oedd yn gofyn am fewnbwn allanol ac y gallai fod yn gostus i ffermwr ei datblygu. Mae hyn bellach yn ddewisol yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Bydd contractau yn para hyd at bum mlynedd.

Taliadau

I gael taliad, bydd yn rhaid i'r camau gweithredu gael eu monitro drwy gasglu tystiolaeth gan y ffermwyr. Byddant yn cwblhau hunanasesiad unwaith y flwyddyn yn erbyn gwaelodlin Dangosyddion Perfformiad Allweddol y sector a'r diwydiant.

Bydd archwiliadau ar sail risg yn targedu ffermydd a gweithgareddau sy'n cynrychioli risg uwch, wedi'u hategu gan archwiliadau dethol ar hap. Lle teimlir bod angen cosbau ariannol, mae Llywodraeth Cymru yn dweud y bydd y rhain yn gymesur â'r methiant i gyflawni camau gweithredu'r cynllun.

Cynnal Gweithredoedd: Bydd y ffermwr yn cynnal y gweithredoedd a ddisgrifir yn y contract ac yn cyflwyno tystiolaeth



Monitro'r Contract: Bydd RPW yn edrych ar y dystiolaeth ac y rhoi help i reoli'r contract



Y Drefn Archwilio: Bydd RPW yn cadarnhau bod y ffermwr yn cydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a Rheolau'r Cynllun



Taliad: Bydd RPW yn trefnu taliadau am Weithredoedd Sylfaenol ac Opsiynol ar ôl edrych ar y dystiolaeth a chynnal yr archwiliadau cydymffurfio

Bydd cyfraddau talu yn ystyried ffactorau y tu hwnt i fodel costau a ysgwyddir ac incwm a ildwyd, ac yn cydnabod y gwerth cymdeithasol a ddarperir gan y canlyniadau sy'n cael eu cyflawni. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n gwneud gwaith modelu i helpu i lywio cyfraddau talu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Disgwylir i'r cyfraddau hyn gael eu cyhoeddi ar gyfer cynnal ymgynghoriad arnynt yn 2023.

Dim ond i ffermwyr sy'n cyrraedd safon sy'n uwch na'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol y byddai gwobr yn cael ei rhoi. Mae'r rhain yn dal i gael eu datblygu a dywed Llywodraeth Cymru y bydd yn gweithio gyda rhanddeiliaid ac yn eu gweithredu mewn pryd ar gyfer cyflwyno'r cynllun.

Sylwadau rhanddeiliaid

Mae Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru wedi croesawu'r camau gweithredu cyffredinol arfaethedig yn gyfnewid am daliad blynyddol, gan ddweud ei fod yn gam mawr ymlaen ac yn llawer llai biwrocraidd na chynigion blaenorol.

Mae'r undeb hefyd wedi nodi:

...that the outcomes Welsh Government seeks to achieve through the scheme should be extended to include key objectives such as food security, rural vitality, on-farm productivity and the Welsh language.

without any information on the levels of funding attached to these actions and activities it remains impossible for farming families to consider how the scheme will support their farming business.

Mae RSPB Cymru wedi croesawu'r cynllun drafft. Mae'n arbennig o falch o weld y camau gweithredu cyffredinol i reoli lleiafswm o 10 y cant o'r holl dir amaeth ar gyfer natur. I fod yn effeithiol, mae'n mynd ymlaen i ddweud bod yn rhaid i'r 10 y cant o dir hwn gael ei reoli'n dda a chynnwys cymysgedd o'r cynefinoedd allweddol i gynnal a chymryd lle'r cynefinoedd a gollwyd ledled Cymru.

Cyfarfu **Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig** y Senedd ag amrywiaeth o randdeiliaid yn Sioe Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf 2022 i drafod y cynllun. Yn gyffredinol, roedd rhanddeiliaid yn croesawu'r cynllun yn ei ffurf amlinellol, er bod angen mwy o fanylion arnynt i ddod i gasgliadau cadarn. Roedd y pwyntiau allweddol a godwyd yn cynnwys y canlynol:

- Mae angen cyllideb ddigonol i gyd-fynd â lefel yr uchelgais, a hynny gan fynd y tu hwnt i'r camau gweithredu cyffredinol;
- Mae cyngor arbenigol yn allweddol, a hynny law yn llaw â gwybodaeth leol ffermwyr a chymunedau. Mae angen i Cyswllt Ffermio fod yn addas at y diben;

- Mae mesurau rheoli amgylcheddol yn cefnogi'r gwaith o gynhyrchu bwyd yn yr hirdymor, yn ogystal â lles anifeiliaid;
- Mae sefydlogrwydd o ran incwm yn ofyniad allweddol i ffermwyr;
- Mae sicrhau mynediad at gynlluniau ar gyfer ffermwyr ifanc a thenantiaid yn hanfodol i gadw pobl ar y tir;
- Mae hunan-asesu a monitro yn ddymunol gyda hyfforddiant, ynghyd ag arolygiadau cymesur;
- Mae angen hyblygrwydd; er enghraifft, nid oes gan bob fferm y gallu i gyflawni'r cam gweithredu cyffredinol o sicrhau gorchudd coed dros 10 y cant o'r tir;
- Mae angen eglurder ynghylch diffiniadau; er enghraifft, beth sy'n cyfrif fel 'gorchudd coed' a 'chynefin lled-naturiol';
- Gellid ysgogi buddsoddiad preifat; er enghraifft, ar gyfer y camau gweithredu cydweithredol; ac
- Mae'n rhaid cydgysylltu'r gwaith hwn â'r Bil Bwyd, a chwetogi cadwyni cyflenwi.

5. Beth sydd nesaf?

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymgynghori ar gynigion terfynol ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'r Cynllun Pontio yn 2023. Disgwylir i'r Llywodraeth ymgysylltu â ffermwyr drwy raglen allgymorth i drafod y cynllun terfynol y flwyddyn ganlynol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu treialu agweddau ar y cynigion rhwng 2022 a 2024.

Rhagwelir y bydd y cynllun yn agor ym mis Ionawr 2025.

Mae **Llywodraeth Cymru yn cynnig** dod â thaliadau uniongyrchol y Cynllun Taliad Sylfaenol i ben yn raddol yn ystod cyfnod pontio rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2029.

6. Deunydd darllen ychwanegol

- Ymchwil y Senedd, **Cymorth amaethyddol** (2022)
- Ymchwil y Senedd, **Y sector ffermio yng Nghymru** (2022)
- Ymchwil y Senedd, **Arallgyfeirio a gwynnwch ffermio yng Nghymru: rhagolygon ar ôl Brexit** (2019)